

Issue 11 Summer 2003 | Rhif 11 Haf 2003

# ymlaen

the magazine for youth workers in Wales | cylchgrawn i weithwyr ieuenctid Cymru

- **Dysgu anffurfiol - y sector gwirfoddol ar y blaen**


a

- **Y Gwasanaeth Ieuenctid a Phartneriaethau Pobl Ifanc**

- **Informal learning - the voluntary sector shows the way**

also

- **The Youth Service and Young People's Partnerships**



## Advertise with the Wales Youth Agency

From this issue, Ymlaen will be carrying inserts and advertising for anyone wishing to promote themselves to our network. This provides a great opportunity to many organisations both in and outside Wales to advertise resources, training, events, venues, and new initiatives to all our readers.

All advertising in Ymlaen is looked after by Mark Chadwick at BC Publications. Mark has been working with many other voluntary organisations for several years, so if you have any questions, please give him a call - he'll be only too pleased to help.

Loose inserts can be included from as little as £85 per thousand and display advertising costs from just £175 +VAT.

**For further information telephone Mark on 01986 834250.**

## Hysbysebu gyda Chyngor Ieuenctid Cymru

Gan gychwyn gyda'r rhifyn yma, bydd Ymlaen yn cynnwys taflenni a cholofnau hysbysebion gan unrhyw un sydd am ennill cyhoeddusrwydd drwy ein rhwydwaith. Dyma gyfle gwych i lawer o fudiadau yng Nghymru a'r tu allan hysbysebu adnoddau, hyfforddiant, digwyddiadau, canolfannau a mentrau newydd i'n darllenwyr.

Mae'r hysbysebion yn Ymlaen dan ofal Mark Chadwick, BC Publications. Mae Mark wedi gweithio gyda llawer o fudiadau gwirfoddol ers blyneddoddd, felly os hoffech ofyn cwestiwn, codwch y ffôn - bydd yn fwy na pharod i helpu.

Gellir cynnwys taflenni am gyn lleied â £85 y fil; cost hysbyseb mewn colofn yw cyn lleied â £175 +TAW.

**I wybod rhagor ffoniwch Mark ar 01986 834250.**

**ymlaen**

## STARMAN'S HALL

CANOLFAN CANFOD - DISCOVERY CENTRE

Easily accessible via the M4 to Carmarthen, A40 to St Clears, The A477 to Pembroke and the B4319 to Freshwater West via Castlemartin.



For further information contact:  
**DAVE EVANS 02920 575705**  
**Mobile 07968 164366**  
Email: dave@starmanshall.fsnet.co.uk



## B is 4 Badgemakers

Welcome to London Emblem's world of easy badgemaking.

With over 30 years experience we are able to offer a wide and reliable range of British made machines and parts to find the right package for you.

- Badges give maximum impact for minimal cost
- Badges are collectable
- Badges make money for all sorts of causes
- Badges effectively deliver your message
- Badges are fun - just use your imagination and our machines for a great result!

And you can make fridge magnets, handbag mirrors, keyrings, pinless badges, photo stands & bottle openers on our badgemaking machines. To find out more contact us:

**London Emblem**

*The Badgemakers*

**Sales Hotline: 0870 3661254**

[www.londonemblem.com](http://www.londonemblem.com)



**WALES' OLDEST YOUTH ORGANISATION  
CHANGES ITS NAME - AND CELEBRATES  
WITH A £161,000 AWARD FROM THE  
COMMUNITY FUND**

One of the oldest organisations working with young people in Wales, the Welsh Association of Youth Clubs re-launched itself on **Saturday, 7th June as 'Youth Cymru'**

**In a dual celebration Youth Cymru also received a cheque for £161,000 from Jeff Carroll, the Chair of the Wales Community Fund, to further its work with Youth Achievement Awards.**

The award is further evidence of Youth Cymru's contribution to supporting young people in Wales. From its inception in 1934 it has been at the forefront of supporting volunteers by developing innovative approaches to youth work.

Recognition of the value of the work has been received by substantial support from the Community Fund, partnership agreements with Local Authorities and the Welsh Assembly Government.

Current flagship initiatives include 'Who cares I'm a parent', Youth Forum training for young people and the Youth Achievement Awards scheme.

The new name, along with the logo, has received the support of young people and youth workers across Wales as being reflective of continued progress, whilst recognising the 'Welsh' heritage and the context of the work.

**The Launch took place on Saturday, 7th June at the Youth Cymru office, Sachville Avenue, Heath, Cardiff CF14 3NY.**

A commemorative plaque was unveiled by former President Mr H P Williams MBE.

**For further information contact: Keith Thomas, Youth Cymru,  
Sachville Avenue, Heath, Cardiff Tel: 029 20 616123**

# ymlaen

## The magazine for youth workers in Wales.

Ymlaen is published three times a year by the Wales Youth Agency. It is delivered free of charge to 3,000 full and part time youth workers, managers and officers in Wales.

The Wales Youth Agency is an independent grant-aided body, funded by the Welsh Assembly Government to support the youth service in Wales.

All rights reserved. No part of this publication may be copied or reproduced without prior permission of the publisher. The views expressed in Ymlaen are not necessarily those of the Wales Youth Agency.

Whilst every care is taken in the compilation of this publication, the publishers cannot accept responsibility for any inaccuracies or changes since going to press.

Acceptance of advertisements does not imply recommendation by the Wales Youth Agency.

### Contacts:

#### Editorial/enquiries

Liz Sharp, Wales Youth Agency

#### Advertising/Production

BCPublications, 27 Norwich Road,

Halesworth, Suffolk IP19 8BX

Tel 01986 834250

Email [bcsales@micropress.co.uk](mailto:bcsales@micropress.co.uk)

Advertising Manager: Mark Chadwick

Printed by Micropress Ltd

(c) Wales Youth Agency

Leslie Court, Lôn y Llyn,

Caerphilly CF83 1BQ.

Tel 029 20 855700

Fax 029 20 855701

Email [wya@wya.org.uk](mailto:wya@wya.org.uk)

Web [www.wya.org.uk](http://www.wya.org.uk)

## Y cylchgrawn i weithwyr ieuenctid yng Nghymru.

Cyhoeddir Ymlaen deirgwaith y flwyddyn gan Gyngor Ieuenctid Cymru. Fe'i dosberthir yn rhad ac am ddim i 3,000 o weithwyr ieuenctid amser-llawn a rhan-amser, rheolwyr a swyddogion yng Nghymru.

Corff annibynnol sy'n derbyn cymorth grantiau yw Cyngor Ieuenctid Cymru, a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru.

Cedwir pob hawl. Ni cheir copïo nac atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatid y cyhoeddwr ymlaen llaw. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Ymlaen o reidrwydd yn eiddo i Gyngor Ieuenctid Cymru.

Er eu bod yn cymryd pob gofal wrth grynhoi cynnwys y cyhoeddiad hwn, ni all y cyhoeddwr dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau na newidiadau ers mynd i'r wasg. Nid yw derbyn hysbysebion yn dynodi fod Cyngor Ieuenctid Cymru yn eu cymeradwyo.

### Cysylltiadau:

#### Golygyddol/ymholiadau

Liz Sharp, Cyngor Ieuenctid Cymru

#### Hysbysebu/Cynhyrchu

BCPublications, 27 Norwich Road,

Halesworth, Suffolk IP19 8BX

Ffôn 01986 834250

E-bost [bcsales@micropress.co.uk](mailto:bcsales@micropress.co.uk)

Rheolwr Hysbysebu: Mark Chadwick

Argraffwyd gan Micropress Cyf

(c) Cyngor Ieuenctid Cymru

Llys Leslie, Lôn y Llyn, Caerffili CF83 1BQ.

Ffôn 029 20 855700

Ffacs 029 20 855701

E-bost [wya@wya.org.uk](mailto:wya@wya.org.uk)

Gwefan [www.wya.org.uk](http://www.wya.org.uk)

ISSN 1352-2914

Issue 11 Summer 2003 | Rhif 11 Haf 2003

Welcome to the new-look Ymlaen, the magazine for youth workers in Wales. With the ongoing development of the Young People's Partnerships it is a time of change and hopefully growth for the Youth Service in Wales. The Wales Youth Agency therefore considered it important to have a national journal in which to share practice, inform thinking and promote youth work to as wide an audience as possible. Ymlaen will be published three times a year and, as you can see, for the first time contains advertisements.

We hope you enjoy reading this edition, which contains articles from Wales Youth Agency staff and from other workers throughout Wales. If you would like to contribute an article, or require any further information on Ymlaen, please contact Liz Sharp

Croeso i Ymlaen, y cylchgrawn i weithwyr ieuenctid yng Nghymru, ar ei newydd wedd. Wrth i'r Partneriaethau Pobl Ifanc ddatblygu, mae newidiadau (a thwf, gobeithiwn) ar droed i'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru. Barnai Cyngor Ieuenctid Cymru, felly, ei bod yn bwysig cyhoeddi cylchgrawn cenedlaethol i ranni arfer, hybu'r meddwl a hyrwyddo gwaith ieuenctid i gynifer o bobl â phosibl. Cyhoeddir Ymlaen deirgwaith y flwyddyn ac, fel y gwelwch, mae'n cynnwys hysbysebion am y tro cyntaf.

Gobeithiwn y byddwch yn cael blas ar y rhifyn hwn, sy'n cynnwys erthyglau gan staff Cyngor Ieuenctid Cymru a gweithwyr eraill o bob rhan o Gymru. Os hoffech gyfrannu erthygl, neu am wybod rhagor am Ymlaen, cysylltwch â Liz Sharp.

## CONTENTS | CYNNWYS

- |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>4</b> News<br/><b>Newyddion</b></p> <p><b>8</b> The role of the Youth Service in Extending Entitlement<br/><b>Rôl y Gwasanaeth Ieuenctid yn Ymestyn Hawliau</b></p> <p><b>12</b> Sexual health clinic for Wrexham Infoshop<br/><b>Siop wybodaeth iechyd rhywiol i Wrecsam</b></p> <p><b>14</b> Opportunities for international work plus project management training<br/><b>Cyfleoedd i wneud gwaith rhyngwladol a hyfforddiant mewn rheoli prosiectau</b></p> <p><b>16</b> Supervision in action<br/><b>Goruchwylio ar waith</b></p> <p><b>20</b> Caerphilly Youth Forum<br/><b>Fforwm Ieuenctid Caerffili</b></p> | <p><b>22</b> Learning Pathways 14-19 - the voluntary sector contribution<br/><b>Llwybrau Dysgu 14-19 oed - cyfraniad y sector gwirfoddol</b></p> <p><b>24</b> European experience for Welsh youth workers<br/><b>Profiad o Ewrop i weithwyr ieuenctid o Gymru</b></p> <p><b>26</b> Staff College and the new QCA Level 4 programme<br/><b>Y Coleg Staff a'r rhaglen QCA Lefel 4 newydd</b></p> <p><b>28</b> Tooled up - toolkit for curriculum planning<br/><b>Yn barod - offer i gynllunio cwricwlwm</b></p> <p><b>29</b> Dafydd Baker of Chequers<br/><b>Dafydd Baker o Chequers</b></p> |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

## Torfaen launches Senior Member Training Course

**T**orfaen Youth Service has recently launched a Senior Member Training course for young people aged 16 plus. The course is designed to empower young people to take responsibility for helping to organise activities within their youth centres and covers topics such as administration, health and safety, communication skills, organising activities and equal opportunities.

The course is held on a residential basis over a weekend and leads to an OCN level 2 qualification. Groups of up to 12 young people and youth workers

from individual youth centres attend in an effort to strengthen relationships between the staff and young people. A number of courses have already been held at Bryn Bach Park in Tredegar with further planned for the coming months.

The Senior Member Training Course is designed as a first step into youth work training and is one of a number of OCN and other accredited courses offered by Torfaen Youth Service.

For further information contact Ruth Saunders 01495 758868.



## Torfaen yn lansio Cwrs Hyfforddi i Aelodau Hyn

**L**ansiodd Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen Gwrs Hyfforddi i Aelodau Hyn i bobl ifanc dros 16 oed yn ddiweddar. Nod y cwrs yw grymuso pobl ifanc i fod yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau yn eu canolfannau ieuenctid ac mae'n cwmpasu pynciau megis gweinyddu, iechyd a diogelwch, sgiliau cyfathrebu, trefnu gweithgareddau a chyfle cyfartal.

Cynhelir y cwrs fel cwrs preswyl dros y Sul ac mae'n arwain at gymhwyster RhCA Lefel 2. Bydd grwpiau o hyd at 12 o bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid o ganolfannau gwahanol yn mynychu er mwyn atgyfnerthu'r berthynas rhwng staff a phobl ifanc. Cynhaliwyd nifer o gyrsiau ym Mharc Bryn Bach yn Nhrefdegar yn barod a bydd rhagor yn dilyn dros y misoedd

nesaf.

Bwriedir i'r Cwrs Hyfforddi i Aelodau Hyn fod yn gam cyntaf tuag at hyfforddiant mewn gwaith ieuenctid ac mae'n un o nifer o gyrsiau RhCA achrededig a gynigir gan Wasanaeth Ieuenctid Torfaen.

I wybod rhagor ffoniwch Ruth Saunders ar 01495 758868.

## Group plans Model Policy for Lone Working

The Lone Working Group was formed following a Staff College training day in 2002 that focused on personal safety issues for lone workers. The group has met twice to develop practice guidelines and a model policy and for youth workers who work in detached or 1:1 situations with young people. This working situation is often not officially recognised, but does take place in reality.

The purpose of this policy is to acknowledge that lone working is an essential part of the job for certain

workers and to ensure that all necessary measures are put in place to minimise any risk to them.

The group will be having a further meeting at the Wales Youth Agency to finalise the policy and practice guidelines, prior to a wider consultation procedure. Future training opportunities will also be examined at this meeting. If anyone is interested in contributing to the group's work or would like further information, they should contact Mary Nicholls at the Wales Youth Agency (address on p3).

## Grwp yn Llunio Model Polisi ar gyfer Gweithio Unigol

Sefydlwyd y Grwp Gweithio Unigol yn dilyn diwrnod hyfforddi dan ofal y Coleg Staff yn 2002 yn canolbwyntio ar ddiogelwch personol i weithwyr ar eu pennau eu hunain. Mae'r grwp wedi cwrdd ddwywaith i ddatblygu canllawiau arfer a model polisi ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n gweithio y tu allan i'w canolfannau neu'n unigol. Ni roddir cydnabyddiaeth swyddogol i'r math hwn o waith yn aml, ond mae'n digwydd.

Pwrpas y polisi hwn yw cydnabod bod gweithio unigol yn rhan hanfodol o'r gwaith i rai gweithwyr ieuenctid a

sicrhau bod yr holl fesurau angenrheidiol yn eu lle i leihau'r risg iddynt.

Bydd y grwp yn cwrdd eto yn swyddfeydd Cyngor Ieuenctid Cymru er mwyn pennu'r polisi a'r canllawiau yn derfynol, cyn cynnal proses ymgynghori ehangach. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd hyfforddi at y dyfodol yn y cyfarfod hwn hefyd. Os oes diddordeb gennych mewn cyfrannu at waith y grwp neu os hoffech wybod rhagor, cysylltwch â Mary Nicholls, Cyngor Ieuenctid Cymru (cyfeiriad ar dudalen 3).

## Disability Conference

**O**ver the past 50 years the disability movement has achieved great advances in promoting the rights of disabled people. The movement has worked for the acceptance of the Social Model of disability, which recognises that the way society is organised, together with inappropriate values and negative attitudes, has frequently disabled people and limited their lives far more than any physical, mental or sensory impairment.

The pressure for the civil rights and social inclusion of disabled people has led to the enactment of the Disability Discrimination Act and the establishment of the Disability Rights Commission. Nevertheless, there is still some way to go before disabled people are fully included within society and achieve complete equality of opportunity.

How has the youth service in Wales responded to this changing situation?

The Disability Conference on the 3rd April at Llandrindod Wells gave representatives from youth organisations throughout Wales the

opportunity to meet with facilitators from the Disability Rights Commission, Disability Wales and organisations working with disabled young people, to examine both the present situation and positive ways forward.

Participants considered whether their organisations were including disabled young people and offering them the services to which they are entitled. Were they being proactive in reaching these young people and providing any necessary resources to encourage their participation? What exciting and innovative work is happening in this area? What about disabled youth workers and training opportunities? What are the implications of the Disability Discrimination Act for youth organisations? What future plans are there to promote inclusion?

The day was positive, with plenty of information, discussion and participants producing action plans. The work associated with the Conference will be ongoing with the production of a Conference Report, training courses and networking opportunities.

For any further information contact Mary Nicholls at the Wales Youth Agency (address on page3).



## Youth Work Week in Wales 2003 and the Excellence Awards

The eleventh annual Youth Work Week will take place between 1 - 9 November 2003. No theme has been selected for the celebration of Youth Work Week in Wales, but the theme adopted by the National Youth Agency in England is 'Your Roots, Your Community'.

Youth Work Week in Wales was established by the Wales Youth

Agency in 1993 and aims to increase public awareness of youth work as well as celebrating the achievements of young people in Wales through youth work intervention. The week-long celebration also highlights the value for money service that youth work provides.

Tying in with the annual Youth Work Week celebrations will be the tenth annual Youth Work in Wales

Excellence Awards. The Awards, sponsored by the Welsh Assembly Government, reward past or current work with young people, which highlights their talents, and the efforts of individuals and organisations that work with young people throughout Wales.

Entry forms for the Youth Work in Wales Excellence Awards are currently being distributed via

Pigion or can be obtained from the Wales Youth Agency on 029 2085 5700. They can also be downloaded from the Agency's website at [www.wya.org.uk](http://www.wya.org.uk)



## Wythnos Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2003 a'r Gwobrau Rhagoriaeth

Cynhelir yr unfed Wythnos Gwaith Ieuenctid ar ddeg rhwng 1 - 9 Tachwedd 2003. Ni ddewiswyd thema i ddathliadau'r Wythnos Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, ond y thema a fabwysiadwyd gan y Cyngor Ieuenctid yn Lloegr yw 'Eich Gwreiddiau, Eich Cymuned'.

Sefydlwyd yr Wythnos Gwaith

Ieuenctid yng Nghymru gan Gyngor Ieuenctid Cymru yn 1993 a'i nod yw hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith ieuenctid yn ogystal â dathlu cyflawniadau pobl ifanc yng Nghymru drwy gyfrwng gwaith ieuenctid. Mae'r wythnos o ddathliadau'n tynnu sylw hefyd at y gwerth am arian a geir drwy waith ieuenctid.

Rhan o'r dathliadau i'r Wythnos Gwaith Ieuenctid eleni fydd y degfed Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Mae'r Gwobrau, a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn gwobrwyo gwaith cyfredol neu yn y gorffennol gyda phobl ifanc sy'n tynnu sylw at eu doniau ac at ymdrechion y mudiadau a'r bobl

sy'n gweithio gyda phobl ifanc ledled Cymru.

Mae ffurflenni cais ar gyfer y Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru yn cael eu dosbarthu drwy Pigion ar hyn o bryd neu gellir eu harchebu gan Gyngor Ieuenctid Cymru ar 029 2085 5700. Gellir eu histwytho o safle CIC ar y we ar [www.wya.org.uk](http://www.wya.org.uk)

## Anti-Social Behaviour Bill causes concern

A number of young people's organisations have criticised the Anti-Social Behaviour Bill, currently before parliament, which sets out a series of proposals to address anti-social behaviour, giving new powers to police and local authorities to deal with noisy neighbours, crack houses, graffiti, airguns and truanting children.

### Proposals include:

- Giving the police power to disperse groups of young people and take home unaccompanied young children out late at night.
- Dealing with parents who do not control their disorderly children, through offering support and if

needed, through compulsion.

- Extending fixed penalty notices to disorderly 16 and 17 year olds.
- Removing newspaper reporting restrictions on young people on anti-social behaviour orders.

Aspects of the bill, particularly the new powers and provisions outlined in section 4 on the dispersal of groups, are seen as excessive and could undermine the right to free assembly enshrined in Article 2 of the Human Rights Act 1998.

Critics say that an alternative strategy, centred on devoting additional resources to young people and youth projects, would have more effect.

The Bill can be viewed at [www.publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmbills/083/2003083.htm](http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmbills/083/2003083.htm)

## Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn peri pryder

Mae nifer o fudiadau i bobl ifanc wedi beirniadu'r Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol â sydd gerbron y senedd ar hyn o bryd â sy'n amlinellu sawl cynnig i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan roi pwerau newydd i'r heddlu ac awdurdodau lleol ymdrin â chymdgogion swmlyd, tai crac, graffiti, gynnu aer a phlant absennol o'r ysgol.

### Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Rhoi pwerau i'r heddlu chwlu grwpiau o bobl ifanc a mynd â phlant ifanc ar eu pennau eu hunain adref yn hwyr y nos.
- Ymdrin â rhieni nad ydynt yn cadw trefn ar eu plant afreolus, drwy

gynnig cymorth a thrwy orfodaeth lle bo angen.

- Pennu cosbau ariannol gosodedig ar bobl ifanc 16 a 17 oed afreolus.
- Codi gwaharddiadau ar adroddiadau ar bobl ifanc gyda gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn papurau newydd.

Bernir bod rhai agweddau ar y mesur, yn enwedig y pwerau a'r darpariaethau newydd a geir yn adran 4 am chwlu grwpiau, yn ormodol a gallent danseilio'r hawl i ymgynnull yn rhydd a geir yn Erthygl 2 o Ddeddf Iawnderau Dynol 1998.

Dywed rhai beirniad y byddai strategaeth arall, yn canolbwyntio ar neilltuo adnoddau ychwanegol i bobl ifanc a phrosiectau ieuenctid, yn cael mwy o effaith.

Gellir gweld y Mesur ar [www.publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmbills/083/2003083.htm](http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmbills/083/2003083.htm)



## Cynhadledd ar Anabledd

Yn ystod yr 50 mlynedd diwethaf mae'r mudiad anabledd wedi cyflawni llawer o ran hyrwyddo hawliau pobl anabl. Mae'r mudiad wedi gweithio dros dderbyn y Model Cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod trefn cymdeithas, ynghyd â gwerthoedd amhriodol a meddylfryd negyddol, wedi arwain at fwy o anabledd a chyfyngiadau ar fywydau pobl nag unrhyw nam corfforol, meddyliol neu synhwyraidd.

Mae pwysau o blaid hawliau sifil a chynhwysiant cymdeithasol pobl anabl wedi arwain at weithredu'r Ddeddf Camwahaniaethu ar Sail Anabledd a sefydlu'r Comisiwn Hawliau Anabledd. Er hynny, mae cryn lawer i'w wneud eto cyn y bydd pobl ifanc yn rhan gyflawn o'r gymdeithas ac yn mwynhau cyfle cyfartal cyflawn.

Sut mae'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru wedi ymateb i'r newidiadau hyn?

Yn y Gynhadledd ar Anabledd ar 3 Ebrill yn Llandrindod cafodd cynrychiolwyr mudiadau ieuenctid o bob rhan o Gymru

gyfle i grwrdd â gweithwyr o'r Comisiwn Hawliau Anabledd, Anabledd Cymru a chyrrff sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl, i ystyried y sefyllfa bresennol a sut i wneud cynnydd.

Ystyriai'r cynadleddwyr a oedd eu mudiadau'n cynnwys pobl ifanc anabl ac yn cynnig y gwasanaethau iddynt y mae ganddynt hawl i'w disgwyl. A oeddynt yn weithredol o ran cyrraedd y bobl ifanc hyn a darparu unrhyw adnoddau angenrheidiol i'w hannog i gymryd rhan? Pa waith cyffrous a newydd oedd yn digwydd yn y maes hwn? Beth am weithwyr ieuenctid anabl a chyfleoedd hyfforddi? Beth yw goblygiadau'r Ddeddf Camwahaniaethu ar Sail Anabledd i fudiadau ieuenctid? Pa gynlluniau sydd i hyrwyddo cynhwysiant yn y dyfodol?

Yr oedd yn ddiwrnod cadarnhaol, gyda digonedd o wybodaeth a thrafod, a chyfle i gynadleddwyr lunio cynlluniau gweithredu. Bydd y gwaith yn deillio o'r gynhadledd yn parhau, gydag adroddiad, cyrsiau hyfforddi a chyfleoedd i rwydweithio.

I wybod rhagor cysylltwch â Mary Nicholls, Cyngor Ieuenctid Cymru (cyfeiriad ar dudalen 3).

## Early Days for Young People's Partnerships say Principal Youth Officers

Around half of all PYOs believe that Young People's Partnerships are not yet delivering on the expectations of Extending Entitlement, according to a recent survey of their YPP experiences.

Around 31% believed that it was still too early to say, emphasising that the YPP was still settling into its role and that partnership working took time to develop. However, one respondent commented: "The Partnership, with a few exceptions, is working well, positive elements

clearly outweigh the negative, enabling steady progress to be made..."

Concern that the structure had taken too much time to establish was reported, along with the notion that teamwork development within the organisation had been ignored. Some of the partners were unsure how to proceed further and decisions made were not always based on members' shared expertise.

Of the 16 PYOs responding to the survey, 75% were full members of their local YPP, and

25% were represented by officers outside the youth service.

Opinion was divided equally on the influence of YPP arrangements on service delivery, but when asked how the influence manifested itself, the majority view was that this had yet to happen, "the YPP is still 'getting up steam'" was one comment.

The survey was conducted by the Principal Officers Group. For further information please contact the Chair of the group, Jane Williams (Conwy Youth Service) on 01492 575051

## Dyddiau cynnar ar y Partneriaethau Pobl Ifanc, medd y Prif Swyddogion Ieuenctid

Mae tua hanner y Prif Swyddogion Ieuenctid yn credu nad yw'r Partneriaethau Pobl Ifanc yn gwireddu disgwyliadau Ymestyn Hawliau, yn ôl arolwg diweddar o'u profiad o'r Partneriaethau.

Credai rhyw 31% ohonynt ei bod yn rhy gynnar i ddweud, gan ychwanegu bod y Partneriaethau'n dal i ddatblygu a bod gweithio mewn partneriaeth yn cymryd amser. Fodd bynnag, sylw un oedd: "Mae'r Partneriaeth, gydag ambell eithriad, yn gweithio'n dda. Mae'r agweddau cadarnhaol yn drech na'r elfennau

negyddol, ac mae cynnydd sicr wedi bod ..."

Bu rhai'n sôn bod y strwythur wedi cymryd gormod o amser i ddatblygu, a bod y cynllun wedi anwybyddu'r angen i ddatblygu gweithio mewn timau. Yr oedd rhai o'r partneriaid yn ansicr sut i fynd ymlaen ac nid oedd y penderfyniadau bob amser yn gwneud y gorau o arbenigedd yr aelodau.

O'r 16 o brif Swyddogion a atebodd gwestiynau i'r arolwg, yr oedd 75% yn aelodau cyflawn o'u Partneriaeth leol, a chynrychioliod 25% gan swyddogion o'r tu

allan i'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Yr oedd gwahaniaeth barn go gyfartal ar ddylanwad trefniadau'r Partneriaethau ar ddarparu gwasanaethau, ond pan ofynnwyd i bobl sut yr oedd y dylanwad hwnnw yn cael ei weld, barn y mwyafrif oedd nad oedd hyn wedi digwydd eto. "Mae'r Partneriaethau'n dal i "godi stêm", meddai un.

Cynhaliwyd yr arolwg gan y Grwp Prif Swyddogion. I wybod rhagor cysylltwch â Chadeirydd y Grwp, Jane Williams (Gwasanaeth Ieuenctid Conwy) ar 01492 575051

## Disclosure check role for the WCVA

Voluntary sector access to criminal record checks will be simplified in future following a National Assembly grant of £219,000 to the Wales Council for Voluntary Action. This will allow the WCVA to become a registered umbrella body, able to process and countersign disclosure applications on behalf of a range of voluntary groups in Wales.

The development follows concerns raised about the difficulty and expense voluntary groups faced in submitting disclosure applications. At a Voluntary Sector Partnership Council (VSPC) meeting last year, it was reported that few of the organisations registered with the Criminal Records Bureau provided the service to the voluntary sector in Wales, and that charges among those that did varied from £17.50 to £70.00 per check. The situation led to some organisations being

unable to obtain checks on volunteers and staff.

Commenting on the importance of this new development, WCVA Chair Tom Jones said: "Voluntary organisations provide services at the cutting edge of social care, working with children, older people and disabled adults, often on behalf of the statutory sector through contracts and service level agreements."

Mr Jones went on to state that the service would be delivered for the benefit of voluntary groups as quickly and efficiently as possible. It is expected that following Welsh Assembly Government approval and the recruitment/ training of staff, the new unit will be on target to commence operations in October 2003.

For further information contact the WCVA Helpdesk on 0870 607 1666 or visit [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

## Rôl i CGGC yn gwirio datgeliadau

Bydd mynediad i wirio cofnodion troseddau yn symlach i'r sector gwirfoddol yn y dyfodol yn sgil dyfarnu grant o £219,000 gan y Cynulliad Cenedlaethol i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i CGGC ddod yn gorff ambarél cofrestredig, a all brosesu ac adlofnodi ceisiadau am ddatgeliadau ar ran ystod o grwpiau gwirfoddol yng Nghymru.

Daw'r datblygiad yn sgil pryderon a fynegwyd am yr anawsterau a'r costau sy'n wynebu rhai grwpiau gwirfoddol wrth wneud ceisiadau am ddatgeliadau. Mewn cyfarfod o Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol (CPSG) y llynedd, nodwyd mai ychydig iawn o'r mudiadau a gofrestrwyd gyda'r Swyddfa Gofnodion Troseddau oedd yn darparu'r gwasanaeth yng Nghymru, a bod y ffioedd ymhlith y rheini a oedd yn darparu gwasanaeth yn amrywio o £17.50 i £70.00 y pen.

Golygai hyn fod rhai mudiadau'n methu fforddio gwirio gwirfoddolwyr a staff

Wrth sôn am bwysigrwydd y datblygiad newydd hwn, dywedodd Cadeirydd CGGC, Tom Jones: "Mae mudiadau gwirfoddol yn darparu gwasanaethau ym mlaen y gad mewn gofal cymdeithasol, gweithio gyda phlant, yr henoed ac oedolion anabl, ar ran y sector statudol yn aml drwy gcontractau a chytundebau lefel gwasanaeth."

Aeth Mr Jones rhagddo i ddweud y byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu er budd grwpiau gwirfoddol mewn ffordd mor gyflym a ceffeithlon, phosibl. Yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a recriwtio/hyfforddi staff, y disgwyf yw y bydd yr uned newydd yn barod i ddechrau cynnig y gwasanaeth ym mis Hydref 2003.

Gellir dysgu rhagor drwy gysylltu â Helpddesg CGGC ar 0870 607 1666 neu drwy [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

## Research on Youth Service workforce published

**R**ecent research carried out on the maintained youth service in Wales suggests that the workforce - particularly those working part-time and face-to-face with young people - lack both experience and suitable qualification.

John Rose, Assistant Chief Executive of the Wales Youth Agency, conducted the research as part of a PhD study. He received 608 responses to questionnaires distributed to a wide range of workers in the maintained youth service. John described some of the findings as challenging, saying that results indicate that the vast majority of workers have been employed for less than four years. Other findings show that the number of part-time workers qualified to Foundation level is almost matched by the number of unqualified workers. Furthermore, it is this group that is carrying out the majority of face-to-face work with young people.

The full report, published by the Wales Youth Agency, is available as a Newline document and can be ordered from the WYA office (address on p3) or downloaded from the website at [www.wya.org.uk](http://www.wya.org.uk).


## Cyhoeddi ymchwil ar weithlu'r Gwasanaeth Ieuenctid

**M**ae ymchwil a gynhaliwyd yn ddiweddar ar y gwasanaeth ieuenctid cynaleddig yng Nghymru'n awgrymu bod y gweithlu - ac yn enwedig rhai sy'n gweithio'n rhan-amser a wyneb yn wyneb â phobl ifanc - heb brofiad a chymwysterau addas.

Gwnaed yr ymchwil gan John Rose, Prif Weithredwr Cynorthwyol Cyngor Ieuenctid Cymru, fel rhan o astudiaeth PhD. Derbyniodd 608 o atebion i holiaduron a ddosbarthwyd i ystod eang o weithwyr yn y gwasanaeth ieuenctid cynaleddig. Dywedodd John fod rhai o'r canlyniadau'n sialens, am eu bod yn dangos bod y mwyafrif llethol o weithwyr yn eu swyddi ers llai na phedair blynedd. Mae canlyniadau eraill yn dangos bod bron cynifer o weithwyr heb gymwysterau hyd lefel Sylfaen ag sydd o rai cymwysedig. Ar ben hyn, dyma'r grwp sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc.

Ceir gweld yr adroddiad llawn, a gyhoeddwyd gan Gyngor Ieuenctid Cymru, ar ffurf dogfen Newyddion CIC a gellir ei archebu o swyddfa CIC (cyfeiriad ar dudalen 3) neu ei lwytho o'r wefan ar [www.wya.org.uk](http://www.wya.org.uk).

**Qualifications of Part Time Workers**  
**Cymwysterau Gweithwyr Rhan-Amser**



## Personal Record of Achievement (PRA) in International Youth Work

These training days will take place on Thursday, 10 July 2003 in South Wales, and on Friday 11 July 2003 in North Wales (venues to be confirmed). This will be a four-hour intensive training event funded through Connect Cymru by the European Youth Programme introducing the PRA as a tool to recognise the learning that takes place for young people during participation in a Youth Exchange,

Youth / Group Initiative Project or European Voluntary Service. Details of the OCN Nationally Accredited Scheme will also be available. Further details will be available nearer the time from Katie Antippos at the Wales Youth Agency. Information on organising a youth exchange will also be available. This event will be of value to young people, youth workers and senior officers. There will be no charge for attendance.

## Cofnod Cyrhaeddiad Personol (CCP) mewn Gwaith Ieuenctid Rhyngwladol

Cynhelir y dyddiau hyfforddi hyn ddydd Iau, 10 Gorffennaf 2003 yn y De, a dydd Gwener 11 Gorffennaf 2003, yn y Gogledd (lleoliadau i'w cadarnhau). Sesiwn hyfforddi dwys o bedair awr fydd hwn a gyllidir drwy Gyswllt Cymru gan y Rhaglen Ieuenctid Ewropeaidd. Cyflwynir yr CCP fel dull o gydnabod y dysgu sy'n digwydd i bobl ifanc wrth iddynt gymryd rhan mewn prosiectau Cyfnewid Ieuenctid, Mentrau Ieuenctid / Grwpiau neu'r

Gwasanaeth Gwirfoddol Ewropeaidd. Bydd manylion ar gael hefyd am y Cynllun Achrededig Cenedlaethol y Rhwydwaith Coleg Agored. Gellir dysgu rhagor yn nes ymlaen gan Katie Antippos yng Nghyngor Ieuenctid Cymru. Bydd gwybodaeth ar gael hefyd am drefnu taith gyfnewid ieuenctid. Bydd y digwyddiad hwn o werth i bobl ifanc, gweithwyr ieuenctid ac uwch swyddogion. Ni chodir tâl amdano.

# Extending Entitlement - The Role of the Youth Service

**John Rose reflects on contemporary challenges to the Youth Service both before and after the implementation of Extending Entitlement.**

There is a tendency for us all to forget the past, even the recent past, as we concentrate on the new initiatives and developments that cross our paths on a daily basis. As a consequence many of us have already started to forget the state of the Youth Service prior to the setting up of the Welsh Assembly in 1999. It is generally recognised that the Youth Service in Wales had been in decline since Local Government Reorganisation in 1974 and had, as a result, been weakened to a point where it was unable to provide little collective resistance to the social and economic policies of the Conservative Party who were in power between 1979-1997. Both Alun Michael, as the First Secretary to the National Assembly for Wales, and the writers of 'Extending Entitlement' recognised this when they stated that the core Youth Service had been reduced significantly in real terms over the past decade. The result they concluded was a 'patchy service with great variation across Wales in both quality and coverage'.

What then do we remember about the Youth Service pre National Assembly? There was a

shortage of suitably qualified full-time staff with most face-to-face work with young people being carried out by part-time workers. Management structures were often weak with too many managers of the Youth Service also being responsible for other areas of work such as adult education, community development, leisure and play. There was an over-dependence on short-term funding, related to specific policy objectives. Too many youth centres were run down both in terms of fabric and in terms of décor and equipment and were inappropriately placed as a result of the Youth Service taking over redundant local authority buildings. The Youth Service was also too often characterised by low aspirations, uncertainty, disillusionment and apprehensive of becoming involved in the political process, which was seen to be unfriendly towards the very existence of a Youth Service struggling to maintain its young-people-first approach.

Looking back over the last three years what has changed for the Youth Service? How have the ideals of Extending Entitlement - unanimously agreed by the National Assembly for Wales in 2000

and welcomed by the Youth Service - been implemented?

Most significantly the Youth Service has become embedded in legislation albeit as a component part of a wider 'Youth Support Services'. Its specific role has also been enhanced by the comments in the Directions and Guidance for Extending Entitlement, which requires each local authority to:

**"provide and/or secure a high-quality Youth Service which adheres to the ethos and principles within the Youth Work Curriculum Statement for Wales"**

The document also confirmed the role of youth work as being concerned with young people's personal and social development through informal learning, which can be both accredited and non-accredited. This would be achieved through an approach underpinned by a voluntary relationship between young people and youth worker

In addition Chief Executives of local authorities are required under the new legislation

## Ymestyn Hawliau - Rôl y Gwasanaeth Ieuencid

**Dyma John Rose yn ystyried yr heriadau cyfoes i'r Gwasanaeth Ieuencid cyn ac ar ôl gweithredu Ymestyn Hawliau.**

Ceir tuedd ynom i gyd i anghofio'r gorffennol, hyd yn oed y gorffennol agos, wrth inni ganolbwyntio ar y mentrau a'r datblygiadau newydd sy'n dod i'n rhan bob dydd. O ganlyniad mae llawer ohonom eisoes wedi dechrau anghofio am gyflwr y Gwasanaeth Ieuencid cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999. Cydnabyddir yn gyffredinol bod y Gwasanaeth Ieuencid yng Nghymru wedi bod yn dirywio ers Ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1974 a'i fod, oherwydd hynny, wedi cael ei wanhau i'r fath raddau fel na allai wneud fawr ar y cyd i wrthsefyll polisiâu cymdeithasol ac economaidd y Blaid Geidwadol a oedd mewn grym rhwng 1979-1997. Cydnabuwyd hyn gan Alun Michael, fel Prif Ysgrifennydd cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chan awduron 'Ymestyn Hawliau' pan ddywedasant fod y Gwasanaeth Ieuencid craidd wedi cael ei erydu'n sylweddol


mewn termau real yn ystod y degawd blaenorol. Y canlyniad, meddent, oedd 'gwasanaeth anghyson gydag amrywiaeth fawr ar draws Cymru o ran ansawdd a chwmpas'.

Beth a gofynnwyd felly am y Gwasanaeth Ieuencid cyn y Cynulliad Cenedlaethol? Yr oedd prinder staff amser llawn gyda chymwysterau addas a gwneid y rhan fwyaf o waith wyneb yn wyneb gyda gweithwyr rhan-amser. Roedd y strwythurau rheoli'n aml yn wan gyda gormod o reolwyr yn y Gwasanaeth Ieuencid yn gyfrifol hefyd am fathau eraill o waith megis addysg oedolion, datblygiad cymunedol, hamdden a chwarae. Yr oedd gorddibyniaeth ar ariannu byrdymor, mewn perthynas ag amcanion polisi penodol. Yr oedd gormod o ganolfannau ieuencid yn dreuliedig o ran adeiladwaith a dodrefn ac adnoddau ac yr oeddynt mewn mannau amhriodol am fod y Gwasanaeth Ieuencid wedi cymryd drosodd

adeiladau segur awdurdodau lleol. Yn aml iawn hefyd nodweddiad y Gwasanaeth Ieuencid hefyd gan ddyheadau isel, ansicrwydd, dadrithiad ac yr oedd yn ofni cymryd rhan yn y broses wleidyddol, a oedd i'w gweld yn elyniaethus tuag at fodolaeth y Gwasanaeth Ieuencid hyd yn oed. Câi drafferth i gynnal ei ddull gweithredu o roi pobl ifanc yn flaenaf.

Wrth edrych yn ôl dros y tair blynedd diwethaf, beth a newidiodd i'r Gwasanaeth Ieuencid? Sut mae delfrydau Ymestyn Hawliau - y cytunwyd arnynt yn unfrydol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2000 ac a groesawyd gan y Gwasanaeth Ieuencid - wedi cael eu gwreiddio?

Y peth mwyaf arwyddocaol yw fod y Gwasanaeth Ieuencid wedi cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth, boed fel cydran o 'Wasanaethau Cefnogi Ieuencid' ehangach. Mae ei rôl benodol wedi gwella hefyd oherwydd y



to create a Young People's Partnerships whose responsibilities include:

- carrying out a local audit of need
- undertaking a local skills audit of those who work with young people
- identifying existing resources
- consulting with young people
- developing a strategic plan
- prioritising
- producing an annual delivery plan

A new Youth Policy Team of civil servants has also been created within the Welsh Assembly Government as the mechanism to:

- co-ordinate its policy for young people
- promote new ways of working
- share and disseminate effective practice
- monitor progress

Even a superficial analysis would recognise the achievements of the Youth Service during the last three years. There has been a significant increase in the numbers of full-time workers in post. Opportunities for training have been enhanced through a threefold increase in the number of Youth and Community Work training programmes now being offered through NEWI, UWIC, and UWCN. The introduction of the Staff College funded by the Welsh Assembly Government has also brought new opportunities for locally delivered training as part of the 'Coherent Route for Training' which links programmes from OCN Level 1 to Postgraduate level. Many local authorities have used additional resources from the Welsh Assembly Government to both review and

*continued on page 10*

sylwadau yn y Cyfarwyddiadau ac Arweiniad ar gyfer Ymestyn Hawliau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol wneud y canlynol: **“darparu a/neu sicrhau Gwasanaeth Ieuenctid o ansawdd sy'n glynu at ysbryd ac egwyddorion y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru”**

Cadarnhaodd y ddogfen hefyd rôl gwaith ieuenctid fel rhywbeth sy'n ymwneud â datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc drwy ddysgu anffurfiol, a all fod yn achrededig neu'n ddiachrediad. Câi hyn ei gyflawni drwy ddull yn seiliedig ar berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i Brif Weithredwyr awdurdodau lleol o dan y ddeddfwriaeth newydd greu Partneriaethau Pobl Ifanc y mae eu dyletswyddau'n cynnwys:

- cynnal archwiliad o angen lleol
- cynnal archwiliad o sgiliau rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn lleol
- adnabod adnoddau cyfredol

- ymgynghori â phobl ifanc
- datblygu cynllun strategol
- pennu blaenoriaethau
- cynhyrchu cynllun darparu blynyddol

Crëwyd Tîm Polisi Ieuenctid newydd o weision sifil o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd fel peirianwaith i wneud y canlynol:

- cydlynu ei bolisi i bobl ifanc o
- hybu dulliau gwaith newydd
- rhannu a lledaenu arfer da
- monitro cynnydd

Byddai hyd yn oed dadansoddiad arwynebol yn cydnabod cyflawniadau'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod y tair blynedd diwethaf. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y gweithwyr amser llawn mewn swyddi. Bu gwelliant yn y cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant drwy gynydd triphlyg yn nifer y rhaglenni hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymuned a gynigir drwy AGDdC, APCC a CPCC. Mae dyfodiad y Coleg Staff a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi

creu cyfleoedd newydd i ddarparu hyfforddiant yn lleol fel rhan o'r 'Llwybr Hyfforddi Cydlynol' sy'n cydlynu rhaglenni o RhCA Lefel 1 i lefel uwchraddedig. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi defnyddio adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i arolygu ac adolygu strwythurau rheoli eu Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol i bobl ifanc. Mae eraill wedi llwyddo i godi cyfraddau cyflog gweithwyr ac ymarferwyr ieuenctid uwch fel eu bod yn adlewyrchu cyfrifoldebau newydd yn well. Cyflwynwyd trefniadau gweithio newydd hefyd yn cynnwys dull gweithredu mwy cydweithredol gydag ystod eang o fudiadau'n gweithio dros bobl ifanc. O ganlyniad i'r datblygiadau hyn ac eraill mae gweithlu'r Gwasanaeth Ieuenctid fel rheol wedi profi egni a chymhelliad newydd.

Gellir honni yn ddigon cyfiawn fod y Gwasanaeth Ieuenctid wedi cychwyn yn gadarnhaol ar ddarparu agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru i bobl ifanc. Fodd bynnag, er

*parhad ar dudalen 10*

*continued from page 9*

revise their Youth Service management structures to ensure a more effective service to young people. Others have been able to re-grade senior youth workers and practitioners salaries to more appropriately reflect new responsibilities. New working arrangements have also been introduced involving a more co-operative approach with a wide range of organisations working with young people. As a consequence of these and other developments the Youth Service workforce has in most instances become re-energised and re-motivated.

It can be claimed with some justification that a generally positive start has been made by the Youth Service in the delivery of the Welsh Assembly Government's agenda for young people. However, in order to maintain this progress and move forward at an even quicker pace, a number of potential obstacles, both general to the creation of positive Young People's Partnerships and specific to the Youth Service, need to be identified and acted upon.

We must all strive to ensure that Young People's Partnerships do not become more important than

their constituent parts. We must not forget that it is the constituent parts that actually deliver services to young people. To achieve this we must find the time to develop a culture of trust between ourselves as the Youth Service, the Youth Policy Team, Young People's Partnerships Co-ordinators and other organisations working with young people. Differences of opinion should be seen to be that, and not a declaration of enmity. Professional experience and expertise should be respected, as should the protection of organisational identity. All those involved in Young People's Partnerships have a passionate commitment to their area of work with young people. Their articulation of that commitment should not be misconstrued as criticisms of other ways of working. Young People's Partnerships should be a celebration of the synergy possible as a result of strong clearly identified organisations working together for a common purpose. Time and effort should be given to make sure that this happens.

The challenge for us in the Youth Service is to ensure that we are able to speak in a collective way about what the Youth Service is about and in

doing so articulate in an unambiguous way what it is able to contribute to the vision of Extending Entitlement. From this position of greater organisational security we will also be able to articulate in a positive way what we are unable or unprepared to do. There are, however two obvious obstacles to be overcome before we are in this powerful position. First the expansion of the Youth Service has resulted in the employment of significant numbers of inappropriately qualified full-time workers. There is in most instances little doubt about either their commitment or their enthusiasm for their work with young people. However too many have had neither the opportunity to examine the philosophical position of the Youth Service through professional training or to have been introduced to the purpose and values of youth work as a result of appropriate Induction Training. We have to address this issue with some urgency. If we do not, Youth Service identity (as it is described through purpose and values) will diminish as it becomes drawn into a type of work with young people that is not youth work. In too many instances parts of the Youth Service are being seduced by a perception of

*parhad o dudalen 9*

mwyn parhau i wneud cynnydd a symud ymlaen yn gyflymach fyth, rhaid adnabod a goresgyn sawl rhwystr potensial ar greu Partneriaethau Pobl Ifanc yn gyffredinol ac ar y Gwasanaeth Ieuenctid yn benodol.

Rhaid i bawb ymdrechu i sicrhau nad yw Partneriaethau Pobl Ifanc yn dod yn bwysicach na'u cydrannau. Rhaid inni gofio mai'r cydrannau hyn sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc mewn gwirionedd. I gyflawni hyn rhaid inni neilltuo amser i ddatblygu ymddiriedaeth rhyngom ni'n hunain fel y Gwasanaeth Ieuenctid, y Tim Polisi Ieuenctid, Cydlynwyr Partneriaethau Pobl Ifanc a mudiadau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Dylid ystyried gwahaniaethau barn fel dim mwy na hynny, ac yn sicr nid fel mater gelyniaeth. Dylid parchu profiad ac arbenigedd proffesiynol, ac felly hefyd yr awydd i ddiogelu hunaniaeth mudiadau. Dylai pawb sy'n cymryd rhan mewn Partneriaethau Pobl Ifanc fod yn angerddol o blaid eu maes gwaith gyda phobl ifanc. Ni ddylid camddehongli'r ymrwymiad hwnnw fel petai'n feirniadol o ddulliau eraill o weithio. Dylai'r Partneriaethau Pobl Ifanc ddathlu'r cywaith sy'n bosibl os bydd mudiadau'n cydweithio tuag at yr un nod. Dylid neilltuo amser ac ymdrech i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Yr her i ni yn y Gwasanaeth Ieuenctid yw sicrhau y gallwn ni siarad gyda'r un llais am ystyr ac arwyddocâd y Gwasanaeth Ieuenctid a lleisio'n ddiamwys drwy hynny yr hyn y gall ei gyfrannu at weledigaeth Ymestyn Hawliau. O'r safbwynt sicr hwn gallwn fynegi mewn ffordd bositif yr hyn na allwn neu nad ydym yn barod i'w wneud. Mae rhwystrau eraill i'w goresgyn, er hynny, cyn inni gyrraedd y cadernid hwnnw. Y rhwystr cyntaf yw fod ehangu'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi arwain at gyflogi niferoedd sylweddol o weithwyr amser-llawn sydd heb gymwysterau priodol. Ar y cyfan nid oes amau eu hymroddiad na'u brwdfrydedd dros eu gwaith gyda phobl ifanc. Fodd bynnag,



greater organisational security through an enhanced involvement in government-determined agendas driven by the attainment of measurable targets. To engage with these new, more specific funding streams, significant numbers of 'youth workers' have abandoned the philosophical position of youth work to become, for example, school assistants 'cooling out' disruptive pupils or a form of Education Welfare Officer collecting young people from home and delivering them to school.

Secondly there is pressure from within the Youth Service to change its identity to more adequately meet the requirements of government. Howard Williamson (Vice Chair Wales Youth Agency) recently suggested the abandonment of the voluntary relationship between youth worker and young people. Doug Nicholls (CYWU) claims that the Youth Service needs to be more pragmatic in dealing with the requirements being placed on it by government and Tom Wylie (Chief Executive National Youth Agency) brands those defending the traditional Youth Service position as Utopians.

These issues need to be addressed with some

haste. The first through appropriate training and by the development of a full-time qualified Youth Service with all workers being trained to JNC Level 2 National qualification. The second through a collective resistance to those who want the Youth Service to abandon its unique identity in favour of a position more closely aligned to the economic and social agenda of a particular political party. We should all remember in that debate that the next elected government of the UK may want to take us even further down the road in controlling and measuring young people.

Extending Entitlement is still a new document; the role of the Youth Service is still evolving within it. It is a document that has the support of the Youth Service, which is committed to its delivery in a way that recognises the specific role it is capable of making. Within this positive environment we should however recognise some frailties. The Youth Service will no longer be inspected by ESTYN but as part of the wider 'Youth Support Services'. The New Burdens money allocated from the Welsh Assembly Government to regenerate the Youth Service ends in March 2004 with no indication yet of

its continuance. The same position applies to the Staff College. This provides some challenges for us and for the Welsh Assembly Government as it enters its second 4-year term of office. Can we obtain an unambiguous interpretation of what our statutory base means in practice? Can we use this to ensure the development of a National Youth Service delivered locally to the same standard with the same resources in every locality quality controlled by an independent ESTYN inspection? Can the New Burdens money be secured and increased. We should not forget that when asked to 'dream the dream' the New Burdens Working Party arrived at a figure in excess of £100 million pounds as being necessary to ensure a vibrant service. Will the resources be secured to build on the positive impact the Staff College has had on youth work training in Wales? Will the recommendations made in Extending Entitlement for an enhanced role for the Wales Youth Agency be realised? These are new challenges for all of us but their attainment will be built on a significantly stronger position than the one facing the Youth Service in 1999.



mae gormod ohonynt naill ai heb gael cyfle i ystyried athrawiaeth y Gwasanaeth Ieuenctid drwy dderbyn hyfforddiant proffesiynol na chyflwyniad i bwrpas a gwerthoedd gwaith ieuenctid drwy Hyfforddiant Sefydlu priodol. Rhaid inni fynd i'r afael â'r mater hwn ar fyrder. Os na wnawn, bydd hunaniaeth y Gwasanaeth Ieuenctid (fel y'i disgrifir yn ei bwrpas a'i werthoedd) yn dirywio wrth iddo gael ei dynnu tuag at waith gyda phobl ifanc sydd heb fod yn waith ieuenctid o gwbl. Yn rhy aml mae rhannau o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cael eu hudo gan y syniad o sicrwydd iddynt eu hunain i chwarae mwy o ran mewn agenda a bennwyd gan y llywodraeth gyda thargedau mesuradwy. Er mwyn derbyn cyllid o'r ffynonellau hyn â mae nifer mawr o 'weithwyr ieuenctid' wedi cefnu ar athrawiaeth gwaith ieuenctid er mwyn bod, er enghraifft, yn gynorthwyyr gyda phlant afreolus mewn ysgolion neu'n fath o swyddogion lles addysg yn casglu disgyblion o'u cartrefi i'w cludo i'r ysgol.

Yn yr ail le, mae pwysau o'r tu mewn i'r Gwasanaeth Ieuenctid i newid ei hunaniaeth er mwyn ateb gofynion y llywodraeth yn well. Awgrymodd Howard Williamson (Is-gadeirydd Cyngor Ieuenctid Cymru) yn ddiweddar roi'r gorau i'r berthynas wirfoddol rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc. Deil Doug Nicholls (CYWU) fod angen i'r Gwasanaeth Ieuenctid fod yn fwy pragmataidd wrth ymateb i'r gofynion a osodir arno gan y llywodraeth ac mae Tom Wylie (Prif Weithredwr y Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol) yn dweud bod y rhai sy'n amddiffyn y Gwasanaeth Ieuenctid traddodiadol yn Iwtopaidd.

Rhaid mynd i'r afael â'r pethau hyn ar fyrder. Dylid ymdrin â'r cyntaf drwy hyfforddiant priodol a thrwy ddatblygu Gwasanaeth Ieuenctid amser llawn a chymwysedig lle mae gweithwyr wedi'u hyfforddi hyd gymhwyster JNC Lefel 2. Dylid ymdrin â'r ail drwy wrthsefyll rhai sydd am i'r Gwasanaeth Ieuenctid ildio'i hunaniaeth

unigryw er mwyn dilyn agenda economaidd a chymdeithasol plaidd wleidyddol neilltuoel. Dylem gofio yn y ddatl hon y bydd y llywodraeth nesaf i gael ei hethol efallai am fynd â ni ymhellach fyth o ran rheoli a mesur pobl ifanc.

Dogfen newydd yw Ymestyn Hawliau o hyd; mae rôl y Gwasanaeth Ieuenctid yn dal i esblygu o ganlyniad iddi. Dogfen yw hi sy'n derbyn cefnogaeth y Gwasanaeth Ieuenctid, sydd wedi ymrwymo i'w gweithredu mewn ffordd sy'n cydnabod y rôl benodol a all fod ganddi. Yn yr hinsawdd bositif hon, er hynny, dylem gydnabod bod mannau gwan. Ni fydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei arolygu gan ESTYN bellach ond fel rhan o'r 'Gwasanaethau Cynorthwyo Ieuenctid' ehangach. Daw'r arian Beichiau Newydd a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i adfywio'r Gwasanaeth Ieuenctid, i ben ym Mawrth 2004 ac nid oes argoel eto y bydd yn parhau. Mae'r un peth yn wir am y Coleg Staff. Dyma her i ni ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi gychwyn ar ei hail dymor o bedair blynedd wrth y llyw. Oes modd cael dehongliad diamwys o ystyr sylfaen statudol yn ymarferol? A ellir defnyddio'r sylfaen honno i sicrhau datblygu Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol sy'n cael ei ddarparu'n lleol gyda'r un safonau a'r un adnoddau ym mhob ardal, gyda rheolaeth dros ei ansawdd drwy arolygu annibynnol gan ESTYN? A ellir sicrhau ac estyn yr arian Beichiau Newydd? Rhaid cofio mai er mwyn gwireddu breuddwyd y penderfynodd Gweithgor Beichiau Newydd ar ffigur o ragor na £100 miliwn i ddarparu gwasanaeth bywiog. A fydd yr adnoddau ar gael i ategu effaith bositif y Coleg Staff ar hyfforddiant gwaith ieuenctid yng Nghymru? A fydd yr argymhellion yn Ymestyn Hawliau ar gyfer rôl ehangach i Gyngor Ieuenctid Cymru yn cael eu gwireddu? Dyma'r her i bob un ohonom. Byddwn wynebu'r her honno ar dir sicrach nag oedd dan draed y Gwasanaeth Ieuenctid yn 1999.

# “It’s the only place in Wrexham where I found what I needed!”



**Ann Humphreys and Martine Vout describe the successful development of a specialist sexual health clinic within the Wrexham town centre Infoshop.**

## Background

It has long been recognised that young people’s needs for information and advice and their advice-seeking behaviour may not conform to established patterns and young people remain an enigma to the mainstream info and advice sector.

This was addressed in the nineties with the development of Information Shops for Young People across the UK, initially supported by a small amount of central government funding and the National Youth Agency.

The network of Information Shops that was envisaged in every town never materialised, and although there are many successful ‘info shops’ there has been little central support for such a network. Info/advice provision for young people was patchy and solely dependent on committed info/advice advocates.

Luckily, in Wales, young people are now ‘entitled’ to such services and with the support of the Welsh Assembly and Canllaw-Online we are seeing the development of info/advice services at all different levels along with more opportunities for partnership working.

## Developing the Wrexham Infoshop

During 2001-2002 the Wrexham Health Alliance made a grant to the Youth Service to contribute towards the refurbishment of a shop in the town centre. The grant was supported by funds from the Children and Youth Partnership and Youth Service core budget to provide, in addition to general information services, a specialist young people’s sexual health service.

The Local Health Group grant-aided the Youth Service a total of £40,000 for a two year

programme to fund a family planning doctor, two nurses plus products, for three sessions per week. The young people’s clinic opened in October 2002.

Prior to the launch of this service joint training took place for information workers and health service staff to ensure consistency of approach and out of hours accessibility for pregnancy testing, condoms and sexual health education.

It has been clear that the more ‘traditional’ approaches to sexual health have often alienated young people and evidence suggests that many young people lack the information they need to make informed choices about their sexual health. The service is young person-centred and youth workers have a full role in running the clinic sessions. This has considerably demedicalised the service, encouraging accessibility, which is crucial

# “Dyma’r unig le yn Wreccsam lle rydw i wedi cael yr union beth!”



**Ann Humphreys a Martine Vout yn disgrifio datblygu clinig iechyd rhywiol arbenigol fel rhan o’r Siop Wybodaeth yng nghanol tref Wreccsam.**

## Cefndir

Mae’n hysbys ers amser nad yw anghenion pobl ifanc am wybodaeth a chyngor a’u dulliau o geisio cyngor bob amser yn cydymffurfio â’r patrymau arferol a bod pobl ifanc yn dal yn ddigwylwch i’r sector gwybodaeth a chyngor yn y brif ffrwd.

Ceisiwyd datrys hyn yn y naw degau drwy ddatblygu Siopau Gwybodaeth i Bobl Ifanc ar draws y DU, gyda rhywfaint o arian gan lywodraeth ganolog a’r Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol i gychwyn.

Ni ddaeth y gadwyn arfaethedig o Siopau Gwybodaeth ym mhob tref erioed yn realiti, ac er bod yna bob math o ‘siopau gwybodaeth’ nid oes fawr o gefnogaeth ganolog i rwydwaith fel y cyfryw. Roedd y wybodaeth a’r cyngor oedd ar gael i bobl ifanc yn anghyson ac yn dibynnu’n gyfan gwbl ar eiriolwyr ymroddedig.

Yn ffodus, mae gan bobl ifanc ‘hawliau’ i wasanaethau o’r fath yng Nghymru ac rydym yn cydweithio â’r Cynulliad a Chanllaw-Online i geisio datblygu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar bob lefel ynghyd â chyfleoedd ychwanegol i weithio mewnartneriaethau.

## Datblygu Siop Wybodaeth Wreccsam

Yn ystod 2001-2002 dyfarnodd Cynghrair Iechyd

Wreccsam grant i’r Gwasanaeth Ieuenctid tuag at gostau agor siop yng nghanol y dref. Yn ogystal â’r grant cafwyd arian gan y bartneriaeth Plant ac Ieuenctid ac o gyllideb graidd y Gwasanaeth Ieuenctid i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth cyffredinol a gwasanaeth iechyd rhywiol arbenigol i bobl ifanc.

Dyfarnodd y Grŵp Iechyd Lleol grant o £40,000 i’r Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer rhaglen am ddwy flynedd i dalu am feddyg cynllunio teuluoedd, dwy nyrs ac adnoddau, am dri sesiwn yfyrthnos. Agorodd y clinig i bobl ifanc yn Hydref 2002.

Cyn i’r gwasanaeth hwn gael ei lansio cynhaliwyd hyfforddiant ar y cyd i weithwyr gwybodaeth a staff y gwasanaeth iechyd er mwyn sicrhau dulliau gwaith cyson a chyfle i ddefnyddio profion beichiogi y tu allan i’r oriau gwaith, condomau ac addysg mewn iechyd rhywiol.

Mae’n amlwg fod y dulliau mwy ‘traddodiadol’ o ymdrin ag iechyd rhywiol wedi dieithrio pobl ifanc yn aml ac mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod llawer o bobl ifanc heb y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus am eu hiechyd rhywiol. Mae’r gwasanaeth wedi ei ganoli ar bobl ifanc ac mae gan weithwyr ieuenctid ran lawn i’w chwarae yn y sesiynau yn y clinig.

Mae hyn wedi cwtogi cryn lawer ar agweddau meddygol y gwasanaeth, gan ei wneud yn fwy hygyrch, sy’n hollbwysig yn y byd sydd ohoni, yn enwedig am fod cysylltiad amlwg rhwng iechyd rhywiol, tlodi a dieithrwrch cymdeithasol.

Mae’r siop a’r clinig rhyngddynt yn cynnig gwasanaethau hygyrch, anffurfiol a chyfrinachol i bobl ifanc 11 i 25 oed. Mae’r siop yn cynnig gwasanaeth agored i bobl sy’n galw heibio, heb systemau apwyntiadau ffurfiol. Mae ystafelloedd cwnsela ar gael rhag ofn bod pobl ifanc am siarad yn gyfrinachol. Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth amhleidiol, cyfredol a phenodol i bobl ifanc ar gael yma am unrhyw fater a allai fod o bwys iddynt. Mae’r cynllun hamddenol a chroesawgar yn gwneud i bobl ifanc deimlo’n gyfforddus yn chwilita ac yn dod i adnabod y lle cyn holi aelod o staff.

Mae’r staff yn gwneud gwaith wyneb yn wyneb, yn cyfeirio pobl ifanc ymlaen i asiantaethau perthnasol neu’n eirioli ar eu rhan. Gallant nodi ystod o opsiynau a chanlyniadau posibl, ond yn y pen draw y bobl ifanc biau benderfynu.

## Ffeithiau am y Siop Wybodaeth

Ers i’r clinig agor, mae’r ymholiadau wedi treblu ac

in our current climate, particularly as there is a clear link between sexual health, poverty and social exclusion.

Both the shop and clinic provide accessible, informal and confidential services for young people aged 11 to 25. The shop is run as an open door drop in service, away from the formality of appointment systems. There are counselling rooms should young people need privacy. Here impartial, up to date, age specific info, advice and support is available on any issue that may concern a young person. The relaxed and welcoming layout encourages young people to feel comfortable in browsing and 'sussing' the place out before approaching a staff member.

The staff undertake face to face work, refer or signpost to relevant agencies or act as advocates on behalf of the young person. They may identify a range of options and possible outcomes, but decisions are ultimately left to the young person.

### Infoshop facts

Since the opening of the clinic, enquiries have trebled and the shop is on target for an annual enquiry rate in excess of 5,000. The clinic has had a quicker start than was envisaged with near 400 young people registered as regular users. The first six months of operation has seen 492 visits, 51% by girls/young women and 49% from boys/young men. These statistics are for clinic sessions only and are supplemented by a further 250 visits since January from young people, out of clinic times, for

sex education, condoms and pregnancy testing.

There are a number of features and lessons emerging that are worth noting.

■ The number of boys/young men accessing the service is more than was anticipated. Many enquiries are from boys wanting to talk through issues and concerns around sex in a very open way

■ many requests for emergency contraception are linked to excessive alcohol consumption

■ whilst young people are happy to access town centre provision for contraceptive and safe sex advice and products, there is a reluctance for many to take up referrals to G.U.M. clinics for S.T.I. testing. (There are plans for chlamydia screening in the near future)

■ Young people are unanimous in their approval of the service and its setting in the INFO Shop, saying:

- "It's a brill shop and you get the information you need"
- "Great advice, I felt more confident about my questions after, it was good to speak to someone who'd been in our position"
- "It's the only place in Wrexham where I found what I needed"

### Conclusion

The ethos of our service is one of trust, mutual respect, confidentiality and control as we believe this to be a prerequisite to carrying out effective work with young people. We believe that such an approach provides young people with the opportunity to not only make informed choices,

but also creates opportunities for personal development and help with the often difficult and complex transition to adulthood. By giving young people a range of options, they in turn feel more confident and in control of their situation, and better able to make decisions about courses of action to take. This kind of provision, in addition to enabling young people to change or cope with practical or personal issues, attempts to tackle the growing problem of social exclusion which so many face.

For more information on the Wrexham Infoshop please contact Ann Humphreys or Martine Vout on 01978 358900

Canllaw-Online can be contacted on 029 20 887868 [www.canllaw-online.com](http://www.canllaw-online.com)



mae'r siop yn disgwyl derbyn dros 5,000 o ymholiadau'r flwyddyn. Mae'r clinig wedi datblygu'n gynt na'r disgwyl ac mae bron i 400 o bobl ifanc wedi cofrestru yno fel defnyddwyr. Yn ystod ei chwe mis cyntaf mae 492 o ymweliadau wedi bod, 51% gan ferched a menywod ifanc a 49% gan fechgyn a dynion ifanc. Ystadegau am y sesiynau yn y clinig eri hun yw'r rhain ac ar ben y rheini mae 250 o ymweliadau ychwanegol wedi bod ers mis Ionawr gan bobl ifanc, y tu allan i oriau'r clinig, i dderbyn addysg rywiol, condomau a phroffion beichiogi.

Mae nifer o nodweddion a gwersi'n dod i'r amlwg sy'n haeddu sylw.

■ mae nifer y gan bechgyn a dynion ifanc yn defnyddio'r gwasanaeth yn uwch na'r disgwyl. Mae llawer o ymholiadau'n dod gan fechgyn sydd am drafod pryderon am ryw mewn ffordd benagored iawn

■ mae sawl cais am atal cenhedlu brys yn gysylltiedig ag yfed gormod o alcohol

■ er bod pobl ifanc yn hapus yn defnyddio darpariaeth yng nghanol y dref i gael offer atal cenhedlu a chynghor ar ryw ddiogel, maent yn anfodlon cael eu cyfeirio i glinigau clefydau rhywiol. (Mae cynlluniau ar droed i sgrinio am chlamydia yn y dyfodol agos).

■ Mae'r bobl ifanc yn unfrydol o balis y gwasanaeth a'r Siop Wybodaeth:

- "Mae'n wych o siop ac rwy'ti'n cael y wybodaeth rwy'ti'n chwilio amdani"
- "Cynghor da. Roeddwn i'n teimlo'n fwy hyderus am bethau ar ôl ei gael, ac roedd yn dda cael siarad gyda rhywun oedd wedi bod yn yr un sefyllfa"
- "Dyma'r unig le yn Wrexham lle rydw i wedi cael yr union beth"

### Casgliad

Ysbryd y gwasanaeth yw ymddiriedolaeth, parch pawb at ei gilydd, cyfrinachedd a rheolaeth. Rydym yn credu fod hyn yn gwbl ofynnol wrth wneud gwaith effeithiol gyda phobl ifanc.

Rydym yn credu fod dull felly yn rhoi cyfle i bobl ifanc wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn creu cyfleoedd iddynt ddatblygu fel pobl a chymryd y camau anodd hynny tuag at ddod yn oedolion. Drwy gynnig amrywiaeth o opsiynau i bobl ifanc, rydych yn gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus am eu sefyllfa, ac mewn lle gwel i wneud penderfyniadau am eu dyfodol. Yn ogystal â galluogi pobl ifanc i newid neu ymdopi â phroblemau personol, mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â'r dieithrwch cymdeithasol cynyddol sy'n wynebu cynifer ohonynt.

**I wybod rhagor am Siop Wybodaeth Wrecsam cysylltwch ag Ann Humphreys neu Martine Vout ar 01978 358900**

**Gellir cysylltu â Chanllaw-Online ar 029 20 887868 [www.canllaw-online.com](http://www.canllaw-online.com)**



# Opportunities for international youth work

Word on international youth work within Wales is spreading. In addition to the current Youth For Europe programmes, which include Youth Exchanges and all the opportunities listed, this year the Wales Youth Agency and the Connect Cymru Committee have a very ambitious training plan. This will be advertised fully in the next issue of Pigion, and will include a course aimed at supporting young people and part time workers to undertake youth exchanges. An International module for trainee youth workers is also planned, along with structures to support work with some of the pre-accession countries. There will also be some one-day training opportunities and a celebration of European Youth Work in Wales. The Personal Records of Achievement (PRA) for International Work are already established and will be launched in Wales with the delivery of two training days.

If you would like to keep in touch with international developments, opportunities and meet new partners, E-mail the term 'international opportunities' to [katie.antippas@wya.org.uk](mailto:katie.antippas@wya.org.uk) - Nathan Evans, a part time youth worker from Cardiff Black Network did, and found himself on a Project Management Training Course in Egypt! This is his report.

## Cyfleoedd i Waith Ieuenctid Rhyngwladol

Mae gwaith ar waith ieuenctid rhyngwladol yng Nghymru yn lledu. Yn ogystal â'r rhaglenni cyfredol Ieuenctid Dros Ewrop, sy'n cynnwys Prosiectau Cyfnewid Ieuenctid a'r holl gyfleoedd cysylltiedig, mae Cyngor Ieuenctid Cymru a Phwyllgor Cyswllt Cymru yn lansio cynllun hyfforddi uchelgeisiol iawn eleni. Bydd hwn yn cael ei hysbysebu'n llawn yn y rhifyn nesaf o Pigion, a bydd yn cynnwys cwrs i gefnogi pobl ifanc a gweithwyr rhan-amser i gymryd rhan mewn prosiectau cyfnewid ieuenctid. Bwriedir cynnig modiwl rhyngwladol i weithwyr ieuenctid dan hyfforddiant hefyd ynghyd â'r strwythurau i gynorthwyo gwaith gyda rhai o'r gwledydd sydd ar fin cael eu derbyn i'r UE. Bydd cyfleoedd hefyd i gymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi undydd a dathliadau Gwaith Ieuenctid Ewropeaidd yng Nghymru. Sefydlwyd y Cofnodion Cyrhaeddiant Personol (PRA) ar gyfer Gwaith Ieuenctid Rhyngwladol yn barod a byddant yn cael eu lansio yng Nghymru drwy gyfrwng dau ddiwrnod hyfforddi.

Os hoffech gadw mewn cysylltiad â datblygiadau a chyfleoedd rhyngwladol a chysylltu â phartneriaid newydd, anfonwch y geiriau 'cyfleoedd rhyngwladol' at [katie.antippas@wya.org.uk](mailto:katie.antippas@wya.org.uk). Dyna a wnaeth Nathan Evans, gweithiwr ieuenctid rhan-amser o Rwydwaith Pobl Ddu Caerdydd, a'i gael ei hun ar Gwrs Hyfforddi mewn Rheoli prosiectau yn yr Aifft! Dyna'i adroddiad.

### Opportunities...

#### Action 1 - Youth For Europe

Supports short-term group exchanges of young people aged 15 to 25

- Advanced Planning Visits
- Youth Exchanges - Sending and Hosting

#### Action 2 - European Voluntary Service

Supports voluntary service for individuals aged 18 to 25.

#### Action 3 - Youth Initiatives

Assists initiatives that are led by young people themselves.

- Group Initiatives
- Future Capital

#### Action 5 - Support measures

A package of possibilities for support measures to develop new YOUTH projects and to improve their quality.

- Practical training experience
- Feasibility visits
- Contact making seminars
- Study visits
- Seminars
- Training Courses
- Youth Information
- Transnational partnerships and networks

### Cyfleoedd...

#### Gweithredu 1 - Ieuenctid Dros Ewrop

Yn cynorthwyo gyda phrosiectau cyfnewid byrdymor i grwpiau o bobl ifanc 15 i 25 oed

- Ymweliadau Cynllunio Ymlaen Llaw
- Prosiectau Cyfnewid Ieuenctid - Anfon a Derbyn

#### Gweithredu 2 - Y Gwasanaeth Gwirfoddol Ewropeaidd

Yn cynorthwyo gyda gwasanaeth gwirfoddol i unigolion 18 i 25 oed.

#### Gweithredu 3 - Mentrau Ieuenctid

Yn cynorthwyo gyda mentrau sydd dan arweiniad pobl ifanc eu hunain.

- Mentrau Grwpiau
- Cyfalaf y Dyfodol

#### Gweithredu 5 - Mesurau cymorth

Pecyn o fesurau cymorth posibl i ddatblygu prosiectau ieuenctid NEWYDD ac i wella eu hansawdd.

- Hyfforddiant ymarferol
- Ymweliadau dichonoldeb
- Seminarau i feithrin cysylltiadau
- Ymweliadau astudio
- Seminarau
- Cyrsiau Hyfforddi
- Gwybodaeth Ieuenctid
- Partneriaethau a rhydwethiaith rhwng gwledydd

This course took place in Alexandria, Egypt in February 2003 with representatives from Sweden, Egypt, Jordan, Denmark, Turkey and UK. The four UK participants were from Birmingham, London, Reading and Cardiff

I was selected to represent the UK/Wales as part of the British Council's delegation, to learn and develop skills in facilitating and planning youth exchanges within the Euro-Med youth programme.

The first day we had a relaxed session getting to know the other participants and exhibiting our projects/organisations. That evening we had a presentation by the Youth Employment Summit (YES) members in Egypt. We looked at the issues surrounding the 10,000,000 young people who are currently unemployed in the world, a very interesting start to the training.

As the week rolled out we spent time in outdoor challenges, encouraging teamwork, problem solving and leadership. One example that really stood out for me concerned religious and cultural difference. We were in mixed gender groups of 8-10 and our task was to make our way through the spider's web of ropes tied between two trees. The holes were

Cynhaliwyd y cwrs hwn yn Alexandria, yn yr Aifft ym mis Chwefror 2003 gyda chynrychiolwyr o Sweden, yr Aifft, Iorddonen, Denmarc, Twrci a'r DU. Daeth y pedwar cynrychiolydd o'r DU o Birmingham, Llundain, Reading a Chaerdydd

Fe'm dewiswyd i gynrychioli'r DU/Cymru fel rhan o ddirprwyath y Cyngor Prydeinig, er mwyn dysgu a datblygu sgiliau hwyluso a threfnu prosiectau cyfnewid ieuenctid fel rhan o'r rhaglen ieuenctid Euro-Med.

Fe gawson ni sesiwn hamddenol ar y diwrnod cyntaf, yn dod i adnabod ein gilydd ac yn arddangos ein prosiectau a'n mudiadau. Y noson honno, fe gawson ni gyflwyniad gan aelodau'r Prosiect Cyflogi Ieuenctid yn yr Aifft. Fe gawson ni ryw syniad am y problemau sy'n wynebu'r 10,000,000 o bobl ifanc drwy'r byd sy'n ddi-waith ar hyn o bryd. Dechrau diddorol ar yr hyfforddiant.

Wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen fe fuon ni'n cymryd rhan mewn tasgau dan do, yn dysgu gwaith tîm, datrys problemau ac arweiniad. Un enghraifft amlwg iawn i mi oedd gwahaniaethau diwylliannol a chrefyddol. Roedden ni'n gweithio mewn grwpiau cymysg ran rhyw o 8-10 o bobl a'n tasg oedd ymlwybro drwy we o raffau a glymwyd rhwng dwy goeden. Roedd y bylchau'n amrywio o ran maint a siâp ac roedd yn rhaid i bawb gyrraedd yr ochr

## Project management training in Egypt

### Project Management Training Course and Contact Meeting for Youth Workers - a report from Nathan Evans, Youth Development Worker with Cardiff Black Youth Network.

various shapes and sizes and we had to get everybody to the other side without touching the web or using a hole twice. We planned in terms of size, weight, height and strength and had half the group over when we came to a dilemma. We had a Muslim sister in our group and Culturally/Religiously there were issues around women being touched by men who were not family or her husband. We were running out of time so the group, through discussion, found out it would be acceptable for females to have this kind of contact. We approached another group in their task, explained the situation and negotiated the exchange of Male for Female participants for this part of our task and just managed to get every body over in time.

Despite cultural and religious differences, we found through discussion and sharing knowledge that where there's a will there is always a way.

The participants gelled well together and we did a lot of workshops around leadership, fundraising, marketing, project management, quality projects, monitoring and evaluation and risk assessment.

We spent one day doing a "Mission Impossible" simulation activity. We split into national groups and had to plan a multilateral youth exchange from start to finish in 8 hours. We started by identifying partner countries and established feasibility studies, but we had to feed into the 'information centre' which was run by the staff, who kept throwing spanners into the works. Difficulties booking flights, computers crashing and ideas and themes changing, it was by far the most difficult 8 hours ever. As an outcome 4 of us had our applications funded.

The highlight of the course was travelling to Cairo as part of a real life risk assessment. Cairo is home to some 20 Million people and it is congested, we

travelled four hours on a bus that had no seatbelts, which leaked rain and was basically condemned by EU standards. So in terms of risk assessment you can never be totally prepared, you can only assess each situation and work to minimise risks and have staff and young people who are informed.

My time spent in Egypt was fruitful. We have set up a potential feasibility visit to Jordan with Sweden, Egypt and the UK for March 2004 with the theme Identity and Citizenship in the 21st Century. In all, a wonderful experience, so much learned and to be practised in the future.



Nathan Evans



Egyptian hospitality/Lletygarwch Eifftaidd

## Hyfforddiant Prosiect Rheoli yn ar Aifft

### Cwrs Hyfforddi mewn Rheoli Prosiectau a Chyfarfod Cyswllt i Weithwyr Ieuenctid - adroddiad gan Nathan Evans, Gweithiwr Datblygu Ieuenctid gyda Rhwydwaith Ieuenctid Du Caerdydd

draw heb gyffwrdd y we na defnyddio'r un bwlch fwy nag unwaith. Roedden ni wedi dilyn cynllun o ran maint, pwysau, taldra a chryfder ac roedd hanner y grwp wedi croesi pan gawson ni broblem.

Roedd gennym ni chwarae o Foslem yn ein grwp ac roedd problemau diwylliannol/crefyddol ynglŷn â dynion oedd heb fod yn rhan o'r teulu yn ei chyffwrdd. Roedd amser yn brin felly yn

y diwedd fe gafodd y grwp drafodaeth a chael ei bod yn dderbyniol i fenywod gael y math yma o gyswllt. Fe aethon ni at grwp arall wrth eu tasg, egluro'r sefyllfa a negodi cyfnewid aelodau benyw am rai gwryw, a llwyddo - o drwch blewyn - i gael pawb drwodd mewn pryd.

Er gwaetha'r gwahaniaethau diwylliannol a chrefyddol, fe gawson ni drwy drafod y peth a rhannu gwybodaeth, fod modd lle bo ewyllys.

Fe dynnodd y cynadleddwyr ymlaen yn dda iawn a gwneud llawer o weithdai ar themâu arweiniad, codi arian, marchnata, rheoli prosiectau, monitro a gwerthuso ac asesu risg.

Fe dreulion ni un diwrnod yn gwneud gweithgaredd efelychu "Mission Impossible". Fe aeth pawb i grwpiau cenedlaethol ac roedd yn rhaid inni drefnu prosiect cyfnewid ieuenctid amlochrog o'r dechrau i'r diwedd mewn 8 awr. Fe gychwynnon ni drwy adnabod gwledydd partner a chynnal astudiaethau dichonoldeb, ond roedd yn rhaid inni roi gwybod i 'ganolfan wybodaeth' hefyd dan ofal y staff, a oedd yn ceisio drysu pethau i ni: anawsterau yn trefnu teithiau hedfan, problemau cyfrifiadurol a newidiadau i themâu ac amserau. Dyma'r 8 awr fwyaf anodd erioed. O ganlyniad, fe gafodd pedwar ohonon ni gyllid i'n prosiectau.

Uchafbwynt y cwrs oedd teithio i Cairo i gynnal asesiad risg go iawn. I gychwyn, mae Cairo yn gartref i ryw 20 miliwn o bobl ac mae yna dagfeydd ym mhobman. Fe fuon ni'n teithio am bedair awr ar fws heb wregysau diogelwch, yn gollwng glaw ac yn anffit yn ôl safonau Ewrop. Felly, o ran asesu risg, mae'n amhosibl bod yn gwbl barod byth; y cyfan y gallwch chi ei wneud ydy asesu pob sefyllfa a gwneud eich gorau i leihau risgiau drwy roi gwybod i staff a phobl ifanc.

Roedd fy nghyfnod yn yr Aifft yn ffrwythlon. Rydyn ni wedi sefydlu ymweliad dichonoldeb posibl â Iorddonen gyda Sweden, yr Aifft a'r DU erbyn Mawrth 2004 a thema Hunaniaeth a Dinasyddiaeth yn yr 21ain Ganrif. At ei gilydd, profiad gwyb, lle dysgais i lawer i'w roi ar waith yn y dyfodol.

# Supervision in Youth and Community Work

**Dave Massey, Youth and Community Work Lecturer, outlines the processes involved with supervision and describes its importance to both workers and organisations.**

## The Need for Supervision

'The ability of practitioners to plan, reflect, analyse manage and develop requires them to have a critical understanding of what they are doing and where it fits into the overall aims of their work.' Mculloch K. & Tett L. 1999.

'Most full time staff are well qualified, but do not have access to appropriate on-going staff development to improve their skills.'

'Many authorities continue to lack staff with non-contact time who can engage in the development of strategy, establish partnerships, manage quality and develop curriculum and other areas of work' Estyn 1999.

Given the messages implicit in these statements, and the context of change that has characterised recent and contemporary Youth Work practice, the changing emphasis on aspects of welfare provision, dictated by government policies and targeted funding, it is important that practitioners have a vehicle to reflect on the changes, and contradictions, that they are experiencing and the implications these have for their practice. Sarah Banks highlights 'The contradictory roles played by welfare state professionals in caring for, socialising, controlling, helping and educating the people with whom they work'. (Banks 1999). These contradictions, and the professional dilemmas they generate, are of increasing relevance to youth workers as they become more involved with policies associated with the government's strategies related to social exclusion, youth offending, education and training, as well as attempting to hold on to some of the core values of open access youth work. These contradictions are also being brought to the fore by the development of partnership working in programmes like the 'Schools and Youth Work Partnership'; 'Youth Access'; and 'Youth Offending Teams'. Youth Work is an essentially humanistic enterprise, client focused, needs led and aimed at empowerment, and yet 'Youth workers may sometimes find that their main goals seem to be veering towards containment, conversion or control' (Banks 1999).

Such contradictions as outlined above are not new to Youth Work, but in the current climate of change, and new policy directives, they assume considerable significance for many workers, and cause real personal and professional dilemmas which if left unresolved can only lead to a demoralised and less effective workforce.

There appear to be two issues emerging, one is related to professional values and ethics, and the other to the management of change. The former can only be addressed through professional dialogue that develops a process of on-going reflection and analysis, the latter may be helped by some reference to management theory and in particular the concept of 'The Learning Organisation' (Stewart J. 1996). Stewart argues that a key feature of a learning organisation is its ability to manage change; this is brought about by several core characteristics:

- An organisation populated by individuals who are both committed to, and have the ability to manage their own development.
- The existence of processes and methods which encourage and support mutual learning.

- Methods and processes which facilitate dissemination and sharing of learning more widely in the organisation.
- A culture and management style, which is supportive of experimentation, risk taking, involvement and independence on the part of employees at all levels. (Stewart J. 1996)

These features should rest comfortably with organisations that are committed to personal empowerment and lifelong learning, Youth and Community work, as suggested earlier, is essentially about empowerment, and personal development, this should apply as

*continued on page 18*



# Goruchwyllo mewn Gwaith Ieuenctid a Chymuned

